

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2022

Yn bresennol:

John Griffiths AS (Cadeirydd)
Steffan Evans – Sefydliad Bevan (Ysgrifenyddiaeth)
Jane Hutt AS – Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Mike Hedges AS
Sioned Williams AS
Andrew Bettridge – Swyddfa John Griffiths AS
Cherrie Bija – Ffydd mewn Teuluoedd
Katie Palmer – Synnwyr Bwyd Cymru
Alex Sims – Swyddfa Jenny Rathbone AS
Sarah Germain – FareShare Cymru
Karen McFarlane – Plant yng Nghymru
Heather Pells – Pobl a Gwaith
Amy Dutton – Cyngor ar Bopeth
Ellie Harwood – Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Ben Saltmarsh – National Energy Action
Henry Davies – Swyddfa Huw Irranca Davies AS
David Rowlands – Tai Pawb
Amy Bainton – Barnardo's
Beth Rhodes – Llysgennad Bwyd Ifanc, yr Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd
Fayeth Jones – Llysgennad Bwyd Ifanc, yr Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd
Karen Davies – Purple Shoots
Emma Gooding – Y Samariaid
Georgia Marks – Y Groes Goch
Robin Lewis – Swyddfa Vikki Howells AS
Zoe McIntyre – Food Foundation
Sarah Rees – Oxfam Cymru
Sian-Elin Davies – Synnwyr Bwyd Cymru
Sabine Goodwin – Y Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol
Ross Thomas – Tai Pawb
Mary van den Heuvel – Undeb Addysg Genedlaethol Cymru
Glenn Page – Mind
Denise Barry – TGP Cymru
Ryland Doyle – Swyddfa Mike Hedges AS
Eleri Griffiths – Swyddfa Heledd Fychan AS
Leanne Morgan – Teithio Ymlaen
Maureen Howell – Llywodraeth Cymru
Peter Kellem – Llywodraeth Cymru

Cofnodion y cyfarfod

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i ail gyfarfod y grŵp trawsbleidiol ers yr etholiad.
2. Cyflwynodd y Cadeirydd Katie Palmer o Synnwyr Bwyd Cymru, gan ofyn iddi agor y sesiwn gyntaf ar brydau ysgol am ddim a materion cysylltiedig.
3. Agorodd Katie y sesiwn drwy roi trosolwg o'r ffactorau sy'n achosi ansicrwydd bwyd a datrysiadau posibl iddynt. Yn ystod ei chyflwyniad, pwysleisiodd Katie y ffaith ei bod yn bwysig buddsoddi mewn datrysiadau hirdymor yng nghyd-destun ansicrwydd bwyd, yn hytrach na rhoi plastr ar y glwyf yn unig. Nododd fod y datrysiadau hirdymor a oedd o fewn cwmpas Llywodraeth Cymru yn cynnwys y strategaeth bwyd cymunedol a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar dalebau ar gyfer y rhaglen Cychwyn Iach.
4. Yn dilyn ei throsolwg, aeth Katie ymlaen i gyflwyno Beth Rhodes a Fayeth Jones, Llysgenhadon Bwyd Ifanc o'r ymgyrch Hawl Plant i Fwyd. Mae'r Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd yn fenter ledled y DU a gefnogir gan y Food Foundation. Yng Nghymru, mae'r fenter yn cael ei chefnogi gan Synnwyr Bwyd Cymru. Nod yr ymgyrch yw sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn gallu cael cyrchu a fforddio bwyd da. Mae gwaith yr ymgyrch yn cael ei arwain gan Lysgenhadon Bwyd Ifanc, gan gynnwys Beth a Fayeth yng Nghymru. Mae Beth a Fayeth wedi bod yn ymgyrchu ar y mater hwn ers dwy flynedd, ac maent yn angerddol tu hwnt am brydau ysgol. Roedd y pwyntiau a wnaed ganddynt yn cynnwys y canlynol:
 - a. Roeddent yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd. Roeddent yn teimlo bod darpariaeth gyffredinol yn hollbwysig o ran lleihau stigma a gwella maeth.
 - b. Roeddent yn pryderu bod y cynlluniau presennol yn gyfyngedig i ysgolion cynradd. Gall y cyfnod pontio rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd fod yn her i deuluoedd. Hefyd, bydd llawer o blant hŷn yn colli allan ar brydau ysgol yn ystod cyfnodau pan fyddant yn gwneud arholiadau hanfodol.
 - c. Un opsiwn interim posibl o ran mynd i'r afael â'r her hon yw ehangu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ymhlith disgyblion uwchradd, a hynny er mwyn sicrhau bod y teuluoedd sy'n cael eu taro waethaf yn cael cymorth. Yna, byddai modd symud tuag at ddarpariaeth gyffredinol pan fydd y broses o gyflwyno'r rhaglen mewn ysgolion cynradd wedi'i chwblhau.
 - d. Roeddent yn pryderu am y ffaith y bydd y cynnydd mewn costau byw yn cael effaith ar fynediad at fwyd. O ystyried na fydd darpariaeth prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn ddarpariaeth gyffredinol am ddwy flynedd, roeddent yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r meini prawf cymhwysedd yn y cyfamser, er mwyn sicrhau bod plant o deuluoedd incwm isel yn cael cymorth drwy'r argyfwng presennol.
 - e. Gellir rhoi mesurau eraill ar waith i gefnogi plant mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â bwyd, y tu hwnt i ehangu cymhwysedd. Er enghraifft, mae llawer o blant yn dewis peidio â manteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim yn sgil pryderon am ansawdd y bwyd a ddarperir, neu yn sgil diffyg gwybodaeth am alergenau, neu ddiffyg gwybodaeth am faeth.
 - f. O ystyried y ffaith mai plant yw cwsmeriaid arlwywyr ysgolion, mae'n bwysig sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn y broses o ddatblygu dulliau o ymdrin â bwyd yn yr ysgol.

- g. Gellid annog rhagor o blant i ymuno â'r ddadl ar fwyd mewn ysgolion drwy roi cyfle iddynt gyfrannu at yr hyn sy'n ymddangos ar fwydlenni ysgol, cynnal grwpiau ffocws a chynnal arolygon. Gall llwyddiant hefyd arwain at fwy o gyfranogiad. Felly, os yw plant yn ymgysylltu ag ysgolion, awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru, mae'n hanfodol dangos bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
5. Diolchodd y Cadeirydd i Beth a Fayeth am eu cyfraniadau. Cyn gwahodd cwestiynau o'r llawr, nododd y Cadeirydd fod y grŵp trawsbleidiol wedi ysgrifennu at Marcus Rashford i dynnu sylw at y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghymru i drechu tlodi, ac i'w wahodd i un o gyfarfodydd y grŵp.
6. Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i gwestiynau o'r llawr. Gofynnwyd ystod eang o gwestiynau, a chodwyd nifer o bwyntiau. Roedd y materion a ganlyn ymhlith y rhai a drafodwyd:
- a. Y cymorth y gall y sector polisi ei gynnig i'r Llysgenhadon i fwrw ymlaen â'u gwaith.
 - b. Cefnogi'r galwadau i ddarparu cymorth ychwanegol i blant mewn ysgolion uwchradd.
 - c. Camau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â stigma, y tu hwnt i ehangu'r meini prawf cymhwysedd. Roedd y camau gweithredu a gynigiwyd yn cynnwys newid y term 'Prydau Ysgol am Ddim', a sicrhau bod gan blant sy'n cael prydau ysgol am ddim yr un hyblygrwydd wrth ddewis eu prydau â phlant nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.
7. I gloi'r sesiwn, anogodd Katie Palmer unrhyw sefydliadau a oedd â chysylltiadau â phobl ifanc a allai fod â diddordeb mewn bod yn Llysgenhadon Bwyd Ifanc i gysylltu â hi. Gwnaeth Beth a Fayeth argymhell adnoddau eraill a allai fod o ddiddordeb i aelodau'r grŵp trawsbleidiol. Roedd yr adnoddau hyn yn cynnwys:
- a. Siarter yr Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd – <https://foodfoundation.org.uk/publication/childrens-right2food-charter>
 - b. Podlediad a gyflwynwyd gan Lysgenhadon yr Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd – <https://shows.acast.com/right2food>
8. Diolchodd y Cadeirydd i Katie, Beth a Fayeth, a symudodd ymlaen at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef trafodaeth gyda Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Yn gychwynnol, gwahoddwyd y Gweinidog i nodi'r gwaith sydd ar agenda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn enwedig mewn perthynas â'r argyfwng costau byw. Roedd y pwyntiau a wnaed gan y Gweinidog yn cynnwys y canlynol:
- a. Yr argyfwng costau byw yw ei blaenoriaeth fel y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.
 - b. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i gefnogi teuluoedd y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt, gan gynnwys dyblu gwerth y taliadau a wneir o dan y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, o £100 i £200. Diolchodd y Gweinidog hefyd i awdurdodau lleol am eu gwaith yn y broses o weinyddu taliadau.
 - c. Gofynnodd y Gweinidog i aelodau'r grŵp trawsbleidiol rannu eu sylwadau ar y mater o ddarparu arian parod i deuluoedd incwm isel. Roedd gan y Gweinidog ddiddordeb penodol ym marn yr aelodau am gryfderau a gwendidau system o ddarparu arian parod yn hytrach na thalebau.

- d. Mae ymgyrch arall ar y gweill o ran cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun. Mae cynyddu'r niferoedd hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.
 - e. Nododd y Gweinidog y galwadau y mae wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU, gan gynnwys galw am gynnydd o 6 y cant mewn budd-daliadau, gwrthdroi'r toriad o £20 a wnaed i'r Credyd Cynhwysol, a darparu cymorth i bobl gyda'u biliau ynni.
 - f. Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'n ymweld ag amrywiaeth o brosiectau i gael rhagor o wybodaeth am y pwysau yr oedd y rhai ar y rheng flaen yn ei deimlo. Galwodd ar aelodau'r grŵp trawsbleidiol i rannu unrhyw syniadau â hi a'i thîm i'w galluogi i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl yr effeithir arnynt gan yr argyfwng costau byw.
 - g. I gloi, ymddiheurodd y Gweinidog am fethu'r sesiwn flaenorol, ac estynnodd wahoddiad i Lysgenhadon yr Ymgyrch Hawl Plant i Fwyd i gwrdd â hi a'r Gweinidog Addysg.
9. Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei chyfraniad, gan agor y drafodaeth i gwestiynau o'r llawr. Gofynnwyd ystod eang o gwestiynau, a chodwyd nifer o bwntiau. Roedd y materion a ganlyn ymhlith y rhai a drafodwyd:
- a. Roedd aelodau'r grŵp trawsbleidiol yn cytuno bod darparu arian parod i deuluoedd incwm isel yn well na darparu talebau. Mae gwneud hynny yn lleihau stigma ac yn rhoi hyblygrwydd i deuluoedd. Roedd cydnabyddiaeth bod rhai heriau ynghlwm wrth system o ddarparu arian yn y man cyntaf, er enghraifft, heriau o ran y bobl hynny sydd â gorddrafft neu bobl nad oes ganddynt gyfrif banc. Fodd bynnag, dadleuwyd y byddai modd rhoi trefniadau amgen ar waith ar gyfer pobl sy'n wynebu heriau o'r fath.
 - b. Rôl y Gronfa Cymorth Dewisol. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith, er bod y nifer uchaf o bobl erioed yn cael taliadau drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, fod ceisiadau miloedd o bobl yn cael eu gwrthod. Dadleuwyd y byddai'n hynod ddefnyddiol i fudiadau trydydd sector gael mynediad at ragor o wybodaeth am bwy sy'n gwneud ceisiadau am arian o'r gronfa, pam mae pobl yn gwneud ceisiadau, a pham mae pobl yn gweld eu ceisiadau'n cael eu gwrthod. Gallai hyn ganiatáu i wasanaethau lleol gael eu teilwra i ddiwallu anghenion pobl.
 - c. Mynegwyd pryderon ynghylch y nifer sy'n defnyddio'r gronfa, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Tanwydd Gaeaf. Gofynnwyd i'r Gweinidog pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y gronfa hon ar hyn o bryd, ac i werthuso'r cynllun er mwyn gwella'r modd y bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.
10. Mewn ymateb i'r cwestiynau a'r sylwadau cychwynnol, diolchodd y Gweinidog i aelodau'r grŵp am eu cyfraniadau. Gan ymateb i gwestiynau penodol, gwnaeth y Gweinidog yr ymrwymadau a ganlyn:
- a. Mynd yn ôl at awdurdodau lleol i sicrhau bod y Cynllun Tanwydd Gaeaf yn cael ei weinyddu yn y modd mwyaf effeithiol posibl, a gofyn i aelodau'r grŵp rannu unrhyw bryderon gyda hi a'i thîm fel y gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.
 - b. Rhannu data ar y Gronfa Cymorth Dewisol gyda'r grŵp trawsbleidiol. Roedd y Gweinidog yn ymwybodol bod data yn cael eu casglu ar ddyraniadau o'r gronfa, ar sail unrhyw nodweddion gwarchoddedig a oedd gan ymgeiswyr, ac yn ôl yr awdurdodau lleol lle gwnaed y ceisiadau.

- c. Gwneud mwy o waith ymgysylltu â phartneriaid, yn enwedig sefydliadau partner sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu'r Gronfa Cymorth Dewisol.
11. Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei hymatebion, ac ymddiheurodd am orfod gadael y cyfarfod yn sgil apwyntiad a wnaed yn flaenorol. Cymerodd Steffan Evans o Sefydliad Bevan yr awenau o ran cadeirio'r cyfarfod. Roedd y materion eraill a drafodwyd gan aelodau'r grŵp yn cynnwys:
 - a. Pryderon ynghylch y posibilrwydd na fydd llawer o bobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gallu cael mynediad at y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
 - b. Galwadau i sicrhau bod taliadau o'r Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer pobl nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy ar gael drwy gydol y flwyddyn, ac i egluro'r iaith a ddefnyddir yn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf mewn perthynas â phobl nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy.
 - c. Yr angen i Lywodraeth Cymru adolygu cywirdeb y data sydd ganddi ynghylch nifer y bobl sy'n gymwys i gael cymorth drwy gynlluniau fel y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf. Dadleuwyd bod hyn yn hollbwysig o ran sicrhau bod unrhyw fersiynau o'r cynllun yn y dyfodol, neu unrhyw raglenni cymorth eraill, yn cael eu cryfhau.
12. Wrth ymateb, gwnaeth y Gweinidog yr ymrwymadau a ganlyn:
 - a. Mynegi'r pryderon a godwyd ynghylch sefyllfa pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymhlith ei chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, a rhannu'r sylwadau hyn ag awdurdodau lleol.
 - b. Gofyn i'w swyddogion weithredu ar y materion a godwyd mewn perthynas â sefyllfa aelwydydd nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy.
 - c. Pwysleisio pwysigrwydd gweithio gydag awdurdodau lleol o ran darparu cymorth i bobl, a bwydo gwybodaeth yn ôl i'r sector pan fydd rhagor o ddata ar gael.
13. Diolchodd y Gweinidog a Steffan i'r aelodau am eu presenoldeb cyn dod â'r cyfarfod i ben.